RHAGLEN ADDYSG PDSA

Teitl

Gyrfaoedd sy'n ymwneud ag Anifeiliaid

Cyfnod allweddol

1/2

Testun

Cipolwg ar rai o'r gyrfaoedd sydd ar gael sy'n ymwneud ag anifeiliaid.

Pwnc

Iechyd a Lles

Gweithgareddau a Gwmpesir

Datblygu gyrfa

Cynnal ymchwil

Deilliannau Cyflawni

Rwy'n gallu nodi fy sgiliau a'm galluoedd a siarad am swyddi y bydda i'n dewis eu gwneud o bosib.

Rwy'n gallu nodi'r gwahanol ddewisiadau sydd ar gael i mi, a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar yr hyn rwy'n ei wybod.

Rwy'n gallu cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp, aros fy nhro a dangos dealltwriaeth o foeseg sgwrsio.

Rwy'n gallu gofyn cwestiynau sylfaenol i gasglu gwybodaeth syml gan eraill ac ymateb i'r cwestiynau hyn pan ofynnir i mi wneud hynny.

Rwy'n gallu defnyddio gwybodaeth amrywiol a phrofiadau amrywiol o'r gorffennol i wneud ac esbonio penderfyniadau ac rwy'n gallu deall y gall fy mhenderfyniadau effeithio arnaf i ac eraill, nawr ac yn y dyfodol.

Rwyf wedi dechrau deall perthnasedd fy nysgu, fy sgiliau a'm diddordebau i'm dewisiadau bywyd yn y dyfodol.

Amcanion dysgu

Bydd y disgyblion yn deall bod llawer o yrfaoedd lle gallan nhw weithio gydag anifeiliaid - nid milfeddyg a nyrs filfeddygol yn unig.

Bydd y disgyblion yn deall bod angen iddyn nhw weithio'n galed yn yr ysgol i gael y swydd maen nhw ei heisiau pan fyddan nhw'n hŷn.

Deilliannau dysgu

Pawb: Bydd pawb yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o swyddi sydd ar gael sy'n ymwneud ag anifeiliaid.

Rhai: Bydd rhai yn gallu disgrifio rhai o'r swyddi hyn yn fanylach.

Y rhan fwyaf: Bydd y rhan fwyaf yn deall y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen i fod yn filfeddyg, nyrs filfeddygol a gyrfaoedd eraill sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid.

Geiriau allweddol

PDSA	Rhinweddau	Gwirfoddolwyr	Disgrifiad swydd	Ffermwr
Elusen	Cymwysterau	Milfeddyg	Triniwr cŵn	Ceidwad Sw
Lles	Hyfforddiant	Nyrs Filfeddygol	Hyfforddwr cŵn	Priodfab cŵn
Amser	Gradd	Therapydd	Heddlu ar geffylau	
Ysbyty Anifeiliaid Anwes				

Cwestiynau allweddol

Ydych chi'n meddwl y bydd angen i chi weithio'n galed i fod yn filfeddyg/nyrs filfeddygol?
Beth ydych chi'n meddwl mae milfeddygon/nyrsys milfeddygol yn ei wneud bob dydd?
Allwch chi feddwl am unrhyw yrfaoedd lle gallwch chi weithio gydag anifeiliaid?

Adnoddau

Cyflwyniad PowerPoint
Offer clyweledol

Gweithgaredd	Athro	Disgybl	Amser
Sleid 1: Cyflwyniad	Cyflwyno/Atgoffa am PDSA a rhoi drosolwg byr o'r sesiwn.		
Sleid 2: Man cychwyn	Gofynnwch i'r disgyblion enwi'r swydd maen nhw'n meddwl mae pob cymeriad yn ei gwneud.		
Sleid 3: Amcanion Dysgu	Gofynnwch i wirfoddolwr neu 2 ddarllen yr amcanion a'r deilliannau i'r dosbarth.		
Sleid 4: Gweithgaredd	Gofynnwch i'r disgyblion restru cymaint o swyddi sy'n ymwneud ag anifeiliaid ag y gallan nhw.	Mae'r disgyblion yn creu rhestr yn eu parau a rhoi adborth i'r dosbarth.	
Sylwer:	Gellid trafod sleidiau 9-20 fel dosbarth, neu gallwch chi eu hargraffu nhw a a rhoi u i bob grŵp o ddisgyblion fel tasg ymchwil ac yna rhoi adborth i'r dosbarth	Bydd y disgyblion yn trafod eu swydd, cynnal ymchwil ac ysgrifennu: Disgrifiad o'u swydd (LA/MA/HA) - Pa rinweddau/sgiliau maen nhw'n meddwl y byddan nhw eu hangen ar gyfer y rôl hon (MA/HA). - Yr amser y byddai'n ei gymryd iddyn nhw hyfforddi a chymwysterau (HA)	
Sleid 5: Enghraifft	Defnyddiwch y nodiadau i roi trosolwg o'r hyn y mae milfeddygon yn ei wneud.		
Sleid 6: Hyfforddiant	Defnyddiwch awgrymiadau'r sleidiau i siarad am y cymwysterau sydd eu hangen.		
Sleid 7: Enghraifft	Defnyddiwch y nodiadau i roi trosolwg o'r hyn y mae nyrsys milfeddygol yn ei wneud.		

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21
Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585

RHAGLEN ADDYSG PDSA

Nodiadau

Ychwanegwch amseriadau ar gyfer eich grŵp eich hun.

Gellir gwneud unrhyw weithgaredd llafar ar bapur hefyd.

Gweithgaredd	Athro	Disgybl	Amser
Sleid 8: Hyfforddiant	Defnyddiwch awgrymiadau'r sleidiau i siarad am y cymwysterau sydd eu hangen.		
Sleidiau 9-20: Swyddi	Naill ai defnyddiwch nodiadau'r sleidiau i ddweud wrth y dosbarth am bob swydd, gofynnwch i blentyn ddarllen o'ch sgrin neu gofynnwch i'r disgyblion roi adborth yn dilyn eu hymchwil. Gallech chi ddewis detholiad o'r sleidiau hyn yn dibynnu ar amser a maint eich dosbarth.		
Sleid 21: Eu swydd	Gofynnwch i'r disgyblion pa swydd maen nhw am ei gwneud pan fyddan nhw'n hŷn. Gall hyn fod yn ysgrifenedig neu'n drafodaeth.	Siarad mewn parau, yna gofynnwch iddyn nhw ddweud wrthych chi am swydd ddelfrydol eu partner (cadwch lygad ar yr amser).	
Sleid 22: Mojo	Chwaraewch fideo Mojo. Os ydych chi'n brin o amser, ewch ymlaen i'r sleid nesaf.		
Sylwer:	Mae'r fideo hwn yn sôn am ymosodiad terfysgol yng nghyngerdd Ariana Grande - dylech osgoi hyn os bydd yn effeithio ar unrhyw blant yn eich dosbarth.		
Sleid 23: Cracker	Chwaraewch fideo Cracker.		
Sleid 24: Diolch	Diolch gan PDSA!		

Gweithgaredd ymestyn

Mae gweithgareddau dilynol ar gyfer y sesiwn hon ar lefel aur Gwobrau Ysgol PetWise.

Cyswllt cwricwlwm ar gyfer gweithgaredd chwarae rôl ymestyn:
Rwy'n gallu aros mewn rôl a chynorthwyo eraill i chwarae rôl.

Addasiadau ar gyfer anghenion ychwanegol

Gellir golygu'r PowerPoint fel y gellir newid y ffontiau a'u gwneud yn fwy o faint.

Gellid newid y sgrin/lliw cefndir hefyd os oes angen.

Amlinellwch beth fydd yn digwydd yn y sesiwn i blant ag ASD, tynnwch synau o sleidiau a rhagrybuddiwch yr athro am y fideos.

Gwerthusiad

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21
Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585